Ysgol y Dderwen

Polisi Camddefnyddio Sylweddau

Cyflwyniad

Mae llawer o dystiolaeth yn awgrymu fod defnyddio a chamddefnyddio sylweddau yn digwydd ymhlith oedrannau iau. Am y rheswm hwnnw mae angen cael Polisi camddefnyddio sylweddau Ysgol Gyfan yn Ysgol y Dderwen.

Bydd y polisi hwn yn rhoi arweiniad i staff yn y ffyrdd canlynol:

- I gynnal trafodaethau am beth i'w wneud mewn ffordd bwyllog a rhesymol
- Ymgynghori gyda phobl ac asiantaethau eraill
- Agwedd yr ysgol at addysg cyffuriau ac alcohol.

Bydd y polisi yn gofalu:

- Y bydd neges gyffredin yn cael ei chyflwyno'n gyson i'r plant sy'n mynychu Ysgol y Dderwen
- Bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i fynd i'r afael â'r materion sensitif hyn mewn Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol neu mewn meysydd eraill pan fo angen
- Bydd rhieni'n gwybod beth yw safbwynt yr ysgol ar y materion hyn ac yn teimlo'n fwy hyderus wrth siarad â'u plant amdanynt.

Lluniwyd y polisi hwn gan y Pennaeth, a'r staff gyda chymorth tîm ymgynghorol yr Awdurdod Addysg Lleol, mewn ymgynghoriad â rhieni.

Nodau'r polisi yw:

- Gofalu fod ein disgyblion yn cael rhaglen o addysg am alcohol a chyffuriau eraill sy'n gweddu i'w hoed ac anghenion ac sy'n eu harfogi i aros yn ddiogel er gwaetha'r peryglon a'r temtasiynau allent eu hwynebu
- Gofalu fod yr holl staff, disgyblion a rhieni yn gwybod sut mae delio ag enghreifftiau o gamddefnyddio sy'n effeithio ar ein hysgol a'r gymuned.

CYFLWYNO AC ADDYSGU

Amcanion

- Rhoi gwybodaeth gywir i blant sy'n cael ei chyflwyno'n sensitif
- Gofalu eu bod yn sylweddoli ar yr adeg iawn mai 'cyffuriau' yw unrhyw sylwedd sy'n cael ei fewnanadlu, ei lyncu neu ei chwistrellu a bod y sylweddau hyn yn newid cyflwr corfforol neu seicolegol y defnyddiwr. Mae'r rhain yn cynnwys alcohol,

toddyddion a meddyginiaethau dros y cownter yn ogystal â sylweddau anghyfreithlon
- Rhoi i blant y sgiliau i ymdopi ag unrhyw sefyllfaoedd y deuant ar eu traws
- Helpu plant i wneud dewisiadau cadarnhaol ac iachus
- Hyrwyddo datblygiad hunan barch, cyfrifoldeb ac annibyniaeth yn ein disgyblion
- Helpu plant i ddod yn fwy ymwybodol o ddylanwad grwpiau cyfoedion a'r cyfryngau ac i ddysgu sgiliau i ddelio â'r dylanwadau hyn
- Eu helpu i sylweddoli'r drwg iddyn nhw'u hunain ac i eraill wrth ddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

Trefniadaeth a Rheolaeth

- Bydd addysg cyffuriau ac alcohol yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion a gwybodaeth y plant yn ein hysgol
- Bydd cynnwys y cwricwlwm yn cael ei gynnal a'i gefnogi gan ethos yr ysgol
- Bydd y cyfrifoldeb yn cael ei rannu a'i integreiddio yn rhaglen addysg Gwyddoniaeth ac Addysg Iechyd a bydd i'w gweld yn y themâu perthnasol a'r Rhaglenni Astudio
- Cynllunnir rhaglenni astudio ar gyfer y ddau Gyfnod Allweddol er mwyn cynnig cynnydd a pharhad. Fe'u cyflwynir gan ein hathrawon, fydd wedi adeiladu perthynas o gyd ymddiriedaeth gyda'r disgyblion
- Ble'n briodol cawn gefnogaeth gan asiantaethau allanol – nyrs ysgol, heddlu cymunedol wrth gyflwyno addysg cyffuriau. Mae'r swyddogion heddlu hyn wedi cael eu hyfforddi i weithio gyda phlant ac i roi cefnogaeth i'r rhaglen sy'n cael ei harwain gan yr athro/athrawes. Ni fyddant yn canolbwyntio ar erchyllterau camddefnyddio sylweddau ac ni fyddant ychwaith yn dangos samplau o gyffuriau i blant, ond byddant yn esbonio i'r plant beth yw rhai o'r canlyniadau o ymhel â gweithgareddau anghyfreithlon. Byddai'n briodol i ymestyn y gwaith hwn i siarad am fandaliaeth a mân ladrata. Byddant yn cynrychioli awdurdod, a bydd hynny'n atgyfnerthu'r neges am gadw'n glir o gyffuriau anghyfreithlon a throseddu
- Siaradwyr Allanol – ni fydd yr ysgol yn derbyn cynigion gan siaradwyr allanol oni bai ein bod yn gwbl sicr o'u gwerth a'u hyfedredd. Ni fyddai'n berthnasol gwahodd pobl fu'n gaeth i gyffuriau neu weithwyr asiantaethau cyffuriau – gallent roi kudos a hygrededd cynnil i'r union weithgaredd yr ydym yn ceisio'i gondemnio
- Bydd gweithgareddau Datblygu Staff yn cael eu trefnu'n rheolaidd

- Bydd y rhaglen astudio a'r ddarpariaeth yn cael eu monitro, eu gwerthuso a'u diweddaru'n rheolaidd.

Cynnwys y Cwricwlwm

Cyfnod Sylfaen

Mae disgyblion yn cael eu haddysgu am rôl cyffuriau a meddyginiaethau, y gall rhai sylweddau fod yn niweidiol os na chânt eu defnyddio'n gywir. Bydd rhai rheolau diogelwch am gyffuriau, alcohol a sylweddau yn y cartref yn cael eu haddysgu.

Cyfnod Allweddol 2

Mae disgyblion yn cael eu haddysgu am effeithiau niweidiol cyffuriau ac alcohol, y gwahaniaeth rhwng cyffuriau cyfreithlon, anghyfreithlon, dros y cownter a rhagnodedig. Byddwn yn addysgu technegau syml iddynt am wneud dewisiadau ac ymwrthod â phwysau am y rhan llesol y mae sylweddau yn ei chwarae mewn cymdeithas.

Arweiniad ar faterion sensitif

Bydd athrawon yn ateb cwestiynau disgyblion yn agored a gonest ac yn rhoi sylw dyladwy i aeddfedrwydd a dealltwriaeth y disgyblion dan sylw. Ni ellir ystyried gwybodaeth sy'n deillio o drafodaethau yn gyfrinachol gan efallai y bydd rhaid i athrawon weithredu i warchod disgyblion rhag niwed trwy gynnwys neu roi gwybod i oedolion eraill, megis rhieni neu'r heddlu. Ni ddylai athrawon gyfaddef o dan unrhyw amgylchiadau eu bod wedi gwneud unrhyw beth anghyfreithlon, waeth pa mor bell yn ôl. Ni ddylid disgwyl iddynt siarad am eu profiadau neu eu diffyg profiadau personol.

Delio â digwyddiad

Nodau ac amcanion:

- Diogelu cymuned yr ysgol rhag effeithiau andwyol camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- Sicrhau gymaint ag y bo modd diogelwch hir a byr dymor unrhyw ddisgyblion unigol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Delio â digwyddiadau sy'n cynnwys oedolion:

Pan mae unrhyw aelod o gymuned yr ysgol, yn staff, rhieni neu ymwelwyr o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon ar dir yr ysgol neu pan mae'n ymddangos eu bod, neu os ydynt yn dod

â sylweddau o'r fath ar dir yr ysgol heb gael cytundeb ymlaen llaw gan y Pennaeth, gofynnir iddynt adael yn syth. Pan mae sefyllfa o'r fath yn cynnwys sylweddau anghyfreithlon, rhoddir gwybod i'r heddlu. Bydd unrhyw gamau pellach gan yr ysgol yn dibynnu ar y sefyllfa a'r bobl dan sylw.

Digwyddiadau ar dir yr ysgol nad ydynt yn cynnwys personél yr ysgol

O bryd i'w gilydd efallai y bydd pobl eraill yn defnyddio tir yr ysgol i ddefnyddio neu gymryd cyffuriau neu alcohol. Polisi'r ysgol yw rhoi gwybod i'r heddlu a sicrhau diogelwch y disgyblion. Rhaid iddynt wybod na ddylent gyffwrdd unrhyw wrthrychau peryglus fel nodwyddau neu chwistrellau, ac y dylent fynd i nôl aelod o'r staff. Dylent roi gwybod i'r staff yn syth os welant bobl ryfedd ar dir yr ysgol.

Disgyblion yn camddefnyddio sylweddau

Pan mae plant yn gysylltiedig ag unrhyw ddigwyddiad cyffuriau neu alcohol, y camau i'w cymryd fyddai:

- Gweinyddu cymorth cyntaf a galw'r gwasanaethau brys
- Mynd ag unrhyw sylweddau amheus i le diogel
- Rhoi gwybod i'r Pennaeth

Camau dilynol:

- Rhoi gwybod i'r rhieni
- Cysylltu â'r Awdurdod Addysg Lleol i roi gwybod iddynt am y digwyddiad a gofyn am eu cyngor os oes angen
- Gweld beth yw union hyd a lled y digwyddiad
- Ystyried rhoi gwybod i'r heddlu os yw'r digwyddiad yn cynnwys sylweddau anghyfreithlon, ac er nad oes unrhyw reidrwydd i wneud hynny o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, awgrymir mai dyma'r cam y dylid ei gymryd.

Er y bydd swyddogion yr heddlu eisiau hel gwybodaeth am ffynhonnell unrhyw sylweddau anghyfreithlon ni ddylent holi plant heb fod oedolyn arall yn bresennol – rhiant neu warcheidwad os yn bosib. Os yw staff yn cymryd sylweddau sy'n ymddangos yn rhai anghyfreithlon oddi ar blentyn, nid ydynt yn torri'r gyfraith trwy fod â nhw yn eu meddiant. Awgrymir y dylai'r ysgol ofyn am gyngor yr heddlu i:

- Benderfynu beth yw'r sylweddau
- Sut i gael gwared â nhw
- Alluogi'r heddlu i ddarganfod o ble y daethant.

Mae pob cofnod a gwybodaeth yn gyfrinachol, ac nid ydynt ond ar gael i'r asiantaethau hynny y mae'r ysgol neu'r AALl wedi cytuno cydweithredu â nhw er lles y disgybl. Dengys ymchwil na fydd y rhan fwyaf o ddisgyblion ond yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol ond unwaith. Cam olaf yn unig fydd ystyried eithrio disgyblion.

Prif nod yr ysgol yw addysgu a diogelu holl aelodau ein cymuned.